

# Canlyn – nid dewis hawdd

*“Nid yw disgybl yn well na’i athro na gwas yn well na’i feistr.” (adn. 24)*

## Beth am ddarllen Mathew 10:24–42 ac yna myfyrio

Un o amcanion Mathew wrth ysgrifennu ei efengyl oedd calonogi dilynwyr Crist oedd yn wynebu caledi a gwrthwynebiad wrth dystiolaethu i Iesu. Ond mae gwrthwynebiad i’w ddisgwyl, medd Mathew, gan fod Iesu ei hun wedi dod wyneb yn wyneb â gelyniaeth drwy gydol ei weinidogaeth.

Wrth gwrs, mae’n beth brawychus bod yr alwad i ddilyn Iesu bob amser yn golygu dioddef ar ryw ffurf neu’i gilydd, ond mae’n rhaid wynebu’r ffaith honno. Cafodd Iesu ei gamddeall a’i sarhau sawl tro – a dyma fydd ein hanes ninnau. Cafodd ei gyhuddo un tro hyd yn oed o fod yn ddieflig, yn cael ei ysbrydoli gan ‘Beelsebwl’ (Math. 12: 24)! Hyd yn oed mewn gwledydd ‘goddefgar’, mae Cristnogion sy’n gadarn eu cred yn y Beibl yn cael eu dirmygu’n nawddoglyd gan y deallusion elitaidd; mae eu tystiolaeth yn cael ei gwawdio a’i galw’n hen ffasiwn, a’u llawenydd yn cael ei wfftio’n ddirmygus fel rhywbeth arwynebol. Ond dydy disgybl ddim yn well na’i athro. Dydy llwyddiant amlwg a chymeradwyaeth allanol ddim yn feini prawf o ffyddlondeb, fel mae esiamp Iesu’n ei ddangos. Yn wir, ein braint fwyaf mewn gwirionedd ydy cael ein trin fel y cafodd ef ei drin. Yr hyn sy’n bwysig i’r gwas ffyddlon ydy bod fel ei Feistr a chael ei gydnabod ganddo ym mhresenoldeb y Tad (adn. 32).

Yn anad dim, gallwn fod yn ddiolchgar am realaeth Iesu. “Dydy Iesu ddim yn llawn hwyliau wrth sôn am genhadu yn ei enw,” medd Dale Bruner. “Mae’n gwybod mai mudiad lleiafrifol di-lol ydy ei genhadaeth, sy’n achosi rhwyg, sy’n galed, ac mae’n well ganddo roi hynny ar ddeall yn hytrach na chamarwain.” Nid dewis hawdd mo dilyn Iesu – mae’n alwedigaeth anodd. Eto, sut allwn ni beidio â’i ganlyn?

## Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

Neh. 4:1–23; Gal. 4:12–14; Phil. 1:12–18; Heb. 10:32–39

## Meddyliwch am y cwestiynau hyn:

1. Ym mha ffyrdd y goresgynnodd Nehemeia wrthwynebiad?
2. Ym mha ffyrdd y goresgynnodd Paul ei garcharu?

## Gweddi

Fy Nhad a’ m Duw, dw i mor llawen bod fy nhraed ar y llwybr y troediodd dy Fab, y llwybr sy’n arwain yn y pen draw i ogoniant. Gan wybod yr hyn a wn, ni allaf ond canlyn. Diolch i ti Nhad. Amen.